

## GWERS 90

CYFLWYNYDD: BASIL DAVIES

NOD: Cyflwyno 'I prefer ...'

### Geirfa

rygbi	-rugby	pêl droed	-	soccer	
cig eidion	-beef persawr	-		perfume	
bwyd llysieuol	-vegetarian	anrheg	-	present	
	food				
cawl	-	soup, broth	tatws pôb	-	baked potatoes
yn lle	-	instead of	neu	-	or
gartref	-	at home	pan	-	when
fel	-	as			
Daearyddiaeth	-	Geography	Hanes	-	History
na	-	to (when comparing)			
talw ag (gydag) arian	-	to pay with (by) cash			
talw â (gyda) siec	-	to pay (by) with a cheque			
yn y dref	-	in the town			
yn y wlad	-	in the country			

### RHAN 1

1. The 'prefer' pattern is based on the preposition 'da (gyda) / gan

<b>Mae'n well 'da fi</b> (gen i)	-	I prefer (I <b>do</b> prefer)
<b>Mae'n well 'da ti</b> (gen ti)	-	you prefer
<b>Mae'n well 'da hi</b> (ganddi hi)	-	she prefers
<b>Mae'n well 'da fe</b> (ganddo fo)	-	he prefers
<b>Mae'n well 'da Jane</b> (gan Jane)	-	Jane prefers
<b>Mae'n well 'da ni</b> (gynnon ni)	-	we prefer
<b>Mae'n well 'da chi</b> (gynnoch chi)	-	you prefer
<b>Mae'n well 'da nhw</b> (ganddyn nhw)	-	they prefer

**Mae'n well 'da fi** bêl droed.

- **I prefer** soccer.

**Mae'n well 'da Jane** gig eidion.

- **Jane prefers** beef.

**Mae'n well 'da'r plant** jeli coch.

- **The children prefer** red jelly.

**Mae'n well 'da ni** fyw yn y dref.

- **We prefer** (to live) living in the town.

## 2. The Past Tense is easy enough

**Roedd yn well 'da nhw** aros gartre'.

- **They preferred** (to stay) staying at home.

**Roedd yn well 'da fi** chwarae criced, pan oeddwn i'n ifanc.

- **I preferred** playing cricket, when I was young.

Pan oeddwn i yn yr ysgol **roedd yn well 'da fi** waith cartref Hanes.

- When I was in school **I preferred** History homework.

**Roedd yn well 'da fy ffrindiau** ddringo coed.

- **My friends preferred** climbing trees.

## 3. We could use the 'would' forms, of course

**Fe / Mi fasai'n well 'da fi** fynd i Florida ar fy ngwyliau y flwyddyn nesa'.

- **I would prefer** to go to Florida on holiday next year.

**Fe / Mi fasai'n well 'da Mary** gael persawr fel anrheg.

- **Mary'd prefer** to have perfume as a present.

**Fe / Mi fasai'n well 'da nhw** fynd i'r sinema ar nos Sadwrn.

- **They would prefer** to go to the cinema on a Saturday night.

4. Notice the mutation after the 'prefer' pattern

Mae'n well 'da fi **bêl** droed.  
Roedd yn well 'da nhw **gig** eidion.  
Fe fasai'n well 'da ti **fyw** yn y wlad.

5. To convey 'to' when comparing things, we use 'na' in Welsh.

Mae'n well 'da fi fara brown **na bara gwyn**.  
- I prefer brown bread **to white bread**.

Roedd yn well 'da nhw Amsterdam **na Berlin** .  
- They preferred Amsterdam **to Berlin**.

Mae'n well 'da fi bêl droed **na rygbi**.  
- I prefer soccer **to rugby**.

Fe fasai'n well 'da ni fyw yn y dref **na byw yn y wlad**.  
- We'd prefer (to live) living in the town **to living in the country**.

Roedd yn well 'da fy ffrindiau ddringo coed **na chwarae gemau**.  
- My friends preferred climbing trees **to playing games**.

Do you remember that this little word 'na' causes an Aspirate Mutation (c>ch; p>ph; t>th)?

Mae'n well 'da fi de **na choffi**.  
- I prefer tea **to coffee**.

Roedd yn well 'da nhw Amsterdam **na Pharis** .  
- They preferred Amsterdam **to Paris**.

Mae'n well 'da Jane gig eidion **na phorc**.  
- Jane prefers beef **to pork**.

## RHAN 2

### 1. Present Tense questions

**Ydy'n well 'da ti de na choffi?** - Ydy!  
- **Do you prefer** tea to coffee? - Yes!

**Ydy'n well 'da Mary gar coch na char glas?**  
- **Does Mary prefer** a red car to a blue car?

### 2. Past Tense questions

**Oedd yn well 'da ti rygbi na chriced pan oeddet ti'n fach?** - Nac oedd, **roedd yn well 'da fi** griced!  
- **Did you prefer** rugby to cricket when you were little? - No, **I preferred** cricket!

**Oedd yn well 'da frawd fara gwyn na bara brown?** - Oedd.  
- **Did your brother prefer** white bread to brown bread? - Yes!

### 3. Would questions

**Fasai'n well 'da ti gael salad yn lle cawl?** - Basai, diolch yn fawr!  
- **Would you prefer** to have salad instead of soup? - Yes, thank you!

**Fasai'n well 'da John gael Ferrari?** - Wrth gwrs!  
- **Would John prefer** to have a Ferrari? - Of course!

### 4. Beth? questions

#### In English you might ask

What **do you prefer**?  
What **did she prefer**?  
What **would you prefer**?

but in Welsh, we ask this question by using 'best' (i.e. like best)

Beth sy' orau 'da ti?  
Beth oedd orau 'da hi?  
Beth fasai orau 'da ch?

To reply - use the normal 'prefer' pattern

Mae'n well 'da fi . .  
Roedd yn well 'da hi . .  
Fe / Mi fasai'n well 'da fi (gen i)..

- (a) **Beth sy' orau 'da'r plant** - creision neu fisgedi?  
- **What do the children like best** - crisps or biscuits?  
O, mae'n well 'da nhw greision.  
- Oh, **they prefer** crisps.

**Beth sy' orau 'da ti** - sglodion neu datws pôb?  
- **What do you like best** - chips or baked potatoes?  
**Mae'n well 'da fi** datws pôb.  
- **I prefer** baked potatoes.

- (b) Pan oedd Kevin yn fach, **beth oedd orau 'da fe** - cricked neu bêl-droed?  
- When Kevin was small, **what did he like best** - cricket or soccer?  
**Roedd yn well 'da fe** bêl-droed.  
- **He preferred** soccer.

**Beth oedd orau 'da dy ffrindiau** - Hanes neu Ddaearyddiaeth.  
- **What did your friends like best** - History or Geography?  
**Roedd yn well 'da nhw** Hanes.  
- **They preferred** History.

- (c) **Beth fasai orau 'da'r plant** - creision neu fisgedi?  
- **What would the children like best** - crisps or biscuits?  
O, **mi fasai'n well 'da nhw** greision.  
- Oh, **they'd prefer** crisps.

**Beth fasai orau 'da ti** - sglodion neu datws pôb?  
- **What would you like best** - chips or baked potatoes?  
**Fe fasai'n well 'da fi** datws pôb, os gwelwch yn dda.  
- **I'd prefer** baked potatoes, please.

